16.09.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Aduniad arbennig dau frawd wedi 30 mlynedd ar wahân

Bydd dau frawd yn cael gweld ei gilydd ar ôl 30 mlynedd ar wahân ym mhennod yr wythnos yma o **Gwesty Aduniad** (nos Fawrth 27 Medi).

Tydi Robin Morris o Gaernarfon prin wedi gweld ei frawd Tomos, sy'n byw yn Y Fenni ers iddyn nhw adael y cartref plant ym Montnewydd ger Caernarfon lle cawson nhw eu magu yn y 1960au. Fe'u gyrrwyd yno pan roedden nhw'n 3 a 6 oed, pan fu farw'i fam ar enedigaeth ei frawd bach.

Mae Robin, sydd wedi datblygu salwch dementia ers 2011 yn ymweld â'r gwesty gyda'i wraig Carol yn gwmni iddo, a'r gobaith yw bydd yr aduniad arbennig yn helpu i sbarduno ambell i atgof. Un cyfnod sy'n dal yn fyw yn y co' i Robin yw ei amser yng nghartref plant Bontnewydd:

"Ella neith o ddim nabod ei frawd mor sydyn â hynny" meddai Carol "ond dwi'n gobeithio neith o ddod â chydig bach o'r co' nôl iddo wrth sôn am atgofion o flynyddoedd yn ôl."

Yn ymuno yn yr aduniad mae Dafydd Hughes, hen ffrind i'r ddau yn eu cyfnod yn y cartref:

"Es i i'r cartra' yn 1960" meddai Dafydd. "Dwi'n cofio'r diwrnod yn iawn – mynd ar y bys efo Nain a *suitcase* bach brown o'dd gen i. Nes i grio oherwydd Nain oedd Mam mewn ffordd; o'dd hi wedi magu fi am flynyddoedd.

"Dwi'm 'di gweld Tomos ers 'mod i'n 12 oed, a dwi'm 'di gweld Robin ers deuddeg i bymtheg mlynadd. Mae heddiw'n ddiwrnod sbesial.

"Roedd Tomos a Robin yn y cartra' o'm mlaen i a ddes i'n ffrindia' efo nhw. Oeddan ni'n griw o tua 40 o blant yna, ac o'ddan ni fel un teulu mawr. O'dd y cartra'n sbeshal i mi a sw'n i'n deud fod yn lle'n sbeshal i lot fuodd yna."

Bydd sypreis ychwanegol ar y diwrnod i'r criw, wrth i rywun arall arbennig iawn o'u cyfnod yma yn eu bywydau ymuno â nhw am de prynhawn i hel atgofion.

Gallwch ddal i fyny gyda dwy bennod gyntaf y gyfres ar S4C Clic am fwy o straeon i gynhesu'r galon.

**Gwesty Aduniad**
**Dydd Mawrth, 27 Medi 9.00 S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Darlun ar gyfer S4C**

08.09.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# Brothers' heartfelt reunion after 30 years apart

Two brothers will get to meet each other after 30 years apart in this week's episode of the Gwesty Aduniad (Tuesday evening 27 September).

Robin Morris from Caernarfon has hardly seen his brother Tomos, who lives in Abergavenny since they left the children's home in Bontnewydd near Caernarfon where they grew up during the 1960s. They were sent to the home when they were 3 and 6 years old, when their mother died giving birth to Robin's little brother.

Robin, who has suffered with dementia since 2011, will visit the hotel with his wife Carol at his side, and it is hoped that the special reunion will help trigger some memories. One era that is still vivid in Robin's memory is his time at Bontnewydd children's home:

"He may not recognise his brother so suddenly" said Carol "but I hope it might trigger his memory a bit by talking about  memories from years ago."

Also joining in the reunion will be Dafydd Hughes, an old friend of both from their time at the care home:

"I went to the home in 1960" said Dafydd. "I remember the day very well - going on the bus with Grandma and I had a small brown suitcase. I cried because Mother was a Grandma in a way; she raised me for years.

"I've haven't seen Tomos since I was 12 years old, and I've not seen Robin for twelve to fifteen years. Today is a special day.

"Tomos and Robin were in the home in before me and I became friends with them. We were a group of about 40 children back then, and it was like one big family. The home was special to me and I know it was a special place for a lot of other people who were there."

There will be an extra surprise on the day, as someone else very special from this period in their lives will join them for an afternoon tea to reminisce.

You can catch up with the first two episodes of the series on S4C Clic for more stories to warm the heart.

**Gwesty Aduniad**
**Tuesday 27 September, S4C**
**English and Welsh subtitles**
**On demand: S4C Clic; BBC iPlayer and other platforms**
**A Darlun production for S4C**